

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Rhydymain  
Nos Fawrth, Ionawr, 15, 2019 am 7:30 o'r gloch.**

**Presennol** Cyngorwyr: Mordaf Roberts (Cadeirydd), Rhun Prys Jones, Hugh A. Evans, Meurig Ashton, Gerallt Griffith, Peredur Jenkins. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb oedd yn bresennol a dymunwyd cyfarchion y flwyddyn newydd.

**2. Ymddiheuriadau:** Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams.

**3. Datgan diddordeb.**

Roedd Gerallt Griffith a Peredur Jenkins yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 7.a.i.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 20, 2018**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 20, 2018**

Eitem 5.10.c. Nid yw bin halen wrth Abergeirw Bach wedi cael ei lenwi.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd i lenwi'r bin.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (25/10/2018) arall oddi wrth Ymddiriedolaeth Cofeb Rhyfel (War Memorial Trust). Maent wedi cael gwybod gan unigolyn nid ydym am wneud gwaith i wella'r cyflwr yr enwau sydd ar Cofeb Rhyfel Llanfachreth. Mae cyflwr llythrenau plwm ar y gofeb wedi dirywio yn gwneud yr enwau yn aneglur. Maent o'r farn y ni fel cyngor lleol sy'n gyfrifol am y Gofeb. Maent yn cynnig ein helpu ac yn gofyn os mae cynllun i wneud gwaith cadwraeth. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i'r Cyngor ar [www.warmemorials.org/helpsheet](http://www.warmemorials.org/helpsheet) Mae grant ar gael i wneud gwaith ond mae galw mawr am ei gael. Mae gwybodaeth sut i wneud cais am grantiau ar gael ar [www.warmemorials.org/grants](http://www.warmemorials.org/grants) a ffurflen ar [www.warmemorials.org/pre-ap](http://www.warmemorials.org/pre-ap) . Mae angen gwneud cais am grant cyn gwneud gwaith. Amgáu mae copi o 'Parliamentary Acts related to war memorials'.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION IONAWR 15, 2019

Llythyr (17/12/2018) derbyniodd Peredur Jenkins oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn amgau copi o 'War Memorials (Local Authorities' Powers) Act 1923'. Mae'r ddogfen yn dweud 'A local authority may incur reasonable expenditure in the maintenance repair and protection of any war memorial within their district (whether vested in them or not).

b. Llythyr (29/11/2018) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth arianol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror, 'Cais am Nawdd'.

c. Llythyr (3/12/2018) oddi wrth Cwmni Bara Caws Cyf. Maent angen cymorth arianol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror, 'Cais am Nawdd'.

ch. Llythyr (4/12/2018) oddi wrth Calonnau Cymru. Maent angen cymorth arianol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror, 'Cais am Nawdd'.

d. Llythyr (1/1/2019) oddi wrth Llên y Llannau. Maent angen cymorth arianol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror, 'Cais am Nawdd'.

dd. Llythyr (10/1/2019) oddi wrth Sioe Arddwriaethol ac Amaethyddol Rhydymain a'r Cylch. Maent angen cymorth arianol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror, 'Cais am Nawdd'.

e. Llythyr (14/12/2018) oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd cyfrifoldeb rheolaeth Canolfannau Hamdden Gwynedd yn cael ei drosglwyddo i gwmni newydd sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd.

Dwedodd Peredur Jenkins mae'n rhatach i gwmni newydd sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd i redeg Canolfannau Hamdden Gwynedd oherwydd y safiant bydd yn cael ei wneud ar TAW.

f. Llythyr (15/1/2019) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod bydd gwaith atgyweirio, yn dilyn tirlithriad, yn cael ei wneud ar ffordd A470, Bwlch yr Oerddrws, rhwng 18/1/2019 a 5/3/2019.

ff. Llythyr (15/1/2019) oddi wrth Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd yn rhoi cyfle i bobl a sefydliadau Gwynedd fynegi barn ar gynigion o Gynyddu Treth Cyngor neu Gwireddu mwy o arbedion ariannol. Mae hyn oherwydd sefyllfa arianol y Cyngor a'r canlyniad i ymgynghoriad cyhoeddus cynhalwyd mis Hydref. Mae holiadur ar gael ar [www.gwynedd.llyw.cymru/StrategaethAriannol](http://www.gwynedd.llyw.cymru/StrategaethAriannol) neu yn llyfrgell neu canolfan hamdden Dolgellau. Maent angen y wybodaeth cyn Ionawr 31.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/567. Cynllun Trydan-dŵr (45kw) yn cynnwys argae, pibell wedi ei gladdu yn rhannol, adeilad tyrbin, all-lif, cysylltiad i'r grid a thrac mynediad dros dro. Doluwchadda, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

ii. NP5/54/396A. Codi estyniadau deulawr a unllawr. Oreira, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

## **8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (26/11/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2019-20. Maent yn rhoi gwybod gall Cyngorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 £8.12, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn  $£8.12 \times 601 = £4,880.12$ .

b. Bil (27/11/2018) am £456.00 oddi wrth Swyddfa Archwiliad Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2017/18 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO. (Llynedd roedd y bil am £187.20)

Penderfynwyd talu'r bil.

c Bil (2/12/2018) am £184.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn Mawrth 1, 2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Llythyr (27/11/2018) oddi Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2019 / 2020. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 25, 2019.

Praesept 2017 /2018 - £6,000.00. Praesept 2018 /2019 - £6,000.00.

Rhodddwyd manylion o'r amcan gyfrif costau y Cyngor am 2018 / 2019 a manylion at praesept 2019 / 2020 i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn amcan gyfrif costau'r Cyngor ac i'r praesept fod yn £6,000.00 fel y llynedd.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION IONAWR 15, 2019

d. Llythyr (12/12/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod ar gyfer 2019/2020 o 1/4/2019. Mae'r cyflog yn unol â Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2019-2020.

Cyflog presennol y Clerc yw £10.107 yr awr ar bwynt SCP 19, h.y. £10.107 x 12awr x 12mis = £1,455.40 y flwyddyn.

Cyflog newydd am 2019/20 fydd £10.37 yr awr ar bwynt SCP 19, h.y. £10.37 x 12awr x 12mis = £1,493.28 y flwyddyn. Mae pwynt SCP 19 wedi newid i SCP 8.

Penderfynwyd derbyn y newid.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Tachwedd 2018: £1,137.81.

e. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd 2018: £6,660.43.

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Rhagfyr 2018: £1,138.00.

ff. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr 2018: £6,660.43.

### **9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Llythyr (10/12/2018) oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf yn rhoi gwybod bod gwaith ffensio ger tir Dalar Las, Llanfachreth wedi ei gwblhau.

### **10. Unrhyw fater arall**

a. Mae angen cadarnhau a chofnodi Cod Ymddygiad. Anfonwyd copi o'r ddogfen i'r aelodau.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Cod Ymddygiad.

b. Mae angen cadarnhau a chofnodi Rheoliadau Cyllidol. Anfonwyd copi o'r ddogfen i'r aelodau.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Rheoliadau Cyllidol.

c. Mae angen cadarnhau a chofnodi Contract Cyflogaeth y Clerc

Penderfynwyd cymeradwyo'r Contract Cyflogaeth y Clerc.

ch. Penderfynwyd anfon llythyr i Cyfoeth Naturiol Cymru yn diolch iddynt am glirio ochr y ffordd Tyddyn Du i Rhobellt, Llanfachreth.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION IONAWR 15, 2019

d. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau beth yw diweddaraf ynglŷn â Cae Chwarae a Lle Parcio sydd wrth Ysgol Llanfachreth.

Llofnod:

Dyddiad: